# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 2 Hydref 2018

Amser y cyfarfod: 13.30

## 159(v4)

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 3 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid: Cyllideb Ddrafft 2019-20

(90 munud)

## 4 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Canfyddiadau'r Rhaglen Garlam i Adolygu Galwadau Melyn - TYNNWYD YN ÔL

(0 munud)

## 5 Datganiad gan y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol: Dathlu Diwrnod Pobl Hŷn

(45 munud)

**6 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Y wybodaeth ddiweddaraf am broffylacsis cyn-gysylltiad – Ein dull o weithio yng Nghymru**

(45 munud)

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 3 Hydref 2018

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 27/09/2018 i'w hateb ar 02/10/2018

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifenyddion y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

## Prif Weinidog

**Michelle Brown** *Gogledd Cymru*

1 OAQ52698

**(e)**

Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o welliannau i amseroedd aros ysbytai ers iddo ddod yn Brif Weinidog?

**Sian Gwenllian** *Arfon*

2 OAQ52656

**(w)**

Beth yw gweledigaeth tymor hir Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu gwasanaethau bysiau yng nghefn gwlad?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

3 OAQ52687

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y ddarpariaeth o gefnogaeth i bobl ddigartref yng ngogledd Cymru?

**Helen Mary Jones** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

4 OAQ52673

**(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda Chomisiynydd Plant Cymru o ran deddfwriaeth i hyrwyddo hawliau plant a phobl ifanc?

**Darren Millar** *Gorllewin Clwyd*

5 OAQ52667

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am raglen goffa Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chofio diwedd y rhyfel byd cyntaf?

**Dawn Bowden** *Merthyr Tudful a Rhymni*

6 OAQ52678

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gefnogaeth y GIG ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yn y system cyfiawnder troseddol?

**Mark Reckless** *Dwyrain De Cymru*

7 OAQ52696

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ynghylch a yw Llywodraeth Cymru'n cefnogi refferendwm arall ar yr UE?

**Andrew R.T. Davies** *Canol De Cymru*

8 OAQ52664

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am baratoadau Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar gyfer y gaeaf?

**Rhun ap Iorwerth** *Ynys Môn*

9 OAQ52702

**(w)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am fewnbwn Llywodraeth Cymru i gais y Grid Cenedlaethol i'r Arolygiaeth Gynllunio i adeiladu peilonau ar draws Ynys Môn?

**Mohammad Asghar** *Dwyrain De Cymru*

10 OAQ52661

**(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i leihau'r bwlch sgiliau yng Nghymru?

**Llyr Gruffydd** *Gogledd Cymru*

11 OAQ52680

**(w)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddyfodol undebau credyd yng Nghymru?

**Jenny Rathbone** *Canol Caerdydd*

12 OAQ52699

**(e)**

Beth y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i gynyddu disgwyliad oes yng Nghymru?

**Neil Hamilton** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

13 OAQ52700

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am raglen Llywodraeth Cymru i ddileu TB mewn gwartheg?

**Angela Burns** *Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro*

**14** OAQ52697

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gyfnod cyfredol y rhaglen gyfalaf i Gymru?

**Julie Morgan** *Gogledd Caerdydd*

**15** OAQ52701

**(e)**

Pa gamau pellach y mae Llywodraeth Cymru'n bwriadau eu cymryd i fynd i'r afael â newid hinsawdd?